OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 76 (Cy. 20)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A4076 a'r A40 (Hwlffordd i Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025

Gwnaed	*27 Ionawr 2025*
Yn dod i rym	*4 Chwefror 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4076 a'r darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd a/neu cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A4076 a'r A40 (Hwlffordd i Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Chwefror 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A4076 Hwlffordd i Aberdaugleddau a chefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 4 Chwefror 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

Cymhwyso

7.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Ionawr 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Gwahardd cerbydau dros dro

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Sunnycroft, Johnston hyd at y goleuadau traffig y tu allan i dafarn y Horse & Jockey yn Steynton.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 190 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan

Salutation Square hyd at bwynt 43 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Fadlen, Hwlffordd.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 151 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd ag Old Hakin Road, Hwlffordd hyd at bwynt 55 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U2299 sy'n arwain at Brickhurst Park, Johnston.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Sunnycroft, Johnston hyd at bwynt 112 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Thornton Road, Steynton.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square, Hwlffordd hyd at bwynt 190 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno.

ATODLEN 3
Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 43 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Fadlen (gan gynnwys cerbytffordd gylchredol y gylchfan) hyd at bwynt 151 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd ag Old Hakin Road, Hwlffordd.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 55 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U2299 i Brickhurst Park hyd at bwynt 103 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Sunnycroft, Johnston.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 112 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Thornton Road, Steynton hyd at bwynt 140 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Victoria, Aberdaugleddau, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol y gylchfan honno.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square (gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol) hyd at ei chyffordd â Chylchfan Scotchwell, Hwlffordd.